**CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 15 Mai 2012 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy-Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Allan Pennington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Les a Chynllunio (SE); Pennaeth Gwasanaehau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ).

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Peter Duffy, Barry Mellor, Bill Tasker a Cefyn Williams

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol na buddiant a fyddai'n rhagfarnu.

**3 CADEIRYDD I'R CYNGOR SIR**

Fe draddododd y Cadeirydd sy'n ymddeol, y Cynghorydd William Cowie, araith ac ynddi fe edrychodd yn ôl ar ei amser fel Cadeirydd gan amlygu nifer o ddigwyddiadau'r oedd wedi eu mynychu yn y deuddeng mis diwethaf. Y digwyddiad a roddodd y balchder mwyaf iddo oedd rhoi rhyddfraint Sir Ddinbych i'r Ffiwsilwyr Cymreig. Manteisiodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol ar y cyfle i ddiolch i'w gyd-gynghorwyr am eu cefnogaeth ynghyd â'r Prif Weithredwr a'i staff. Rhoddodd deyrnged i waith y cyn Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans a'r Cabnet ar eu cyflawniadau. Rhoddwyd diolch arbennig i'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Jeanette Chamberlain Jones, ei Gymar, Denise Hodgkinson ac Eleri Woolford, Rheolwr Cymorth a Datblygu Aelodau. Yn olaf diolchodd i'r tîm cyfieithu am eu gwaith caled.

Cyflwynodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol sieciau am arian a godwyd yn ystod ei amser fel Cadeirydd i'w elusennau dewisol – Hosbis Sant Cyndeyrn a Chanolfan Ganser Llanelwy a Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd. Cyflwynodd roddion

hefyd i'w Gaplan, y Parchedig Val Rowlands, ei Gymar a'r Rheolwr Cymorth a Datblygu Aelodau i gydnabod eu cefnogaeth yn y deuddeng mis diwethaf.

Yma gofynnodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd y Cyngor Sir yn 2012/13. Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones i'w hethol yn Gadeirydd gan amlinellu'r priodweddau personol a'r profiad y byddai'n eu dwyn i'r swydd. Fe eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Raymond Bartley gan ychwanegu y byddai'n llysgennad ardderchog i Sir Ddinbych. Gan na chafwyd unrhyw enwebiadau pellach ac yn dilyn pleidlais gudd cafodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones ei hethol yn unfrydol yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn ddinesig 2012/13.

Mynegodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol ei ddymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol i'r Cadeirydd a oedd yn ei olynu ac fe'i hurddodd â Chadwyn Swydd y Cadeirydd ac yna fe gwblhaodd hithau ei Datganiad yn Derbyn y Swydd. Fe urddodd Cymar y Cadeirydd a oedd yn ymddeol Gymar y Cadeirydd newydd â Chadwyn y Swydd. Rhoddodd y Cadeirydd a oedd yn olynu deyrnged i'r gwaith a wnaethpwyd gan y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, ac fe'i cyflwynodd â bathodyn y Cyn-gadeirydd, plac ac anrheg ar ran y Cyngor.

Fe enwodd y Cadeirydd a oedd yn dod i mewn y Canon John Glover yn Gaplan iddi am y flwyddyn a dywedodd beth oedd ei helusennau dewisol – Hosbis Sant Cyndeyrn, Llanelwy; Vision Support, a Bad Achub y Rhyl. I gloi rhoddodd ei llongyfarchion i'r cynghorwyr a oedd yn dychwelyd a'r cynghorwyr newydd ar eu llwyddiant yn yr etholiadau diweddar gan ddweud ei bod yn edrych ymlaen at weithio efo nhw i gyd yn ystod y flwyddyn i ddod.

**4 IS-GADEIRYDD I'R CYNGOR SIR**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer penodi Is-gadeirydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Hugh Evans bod y Cynghorydd Raymond Bartley yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn ddinesig 2012/13. Cyfeiriodd at brofiad eang y Cynghorydd Bartley a'i waith diflino yn y gymuned. Fe eiliwyd yr enwebiad gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gan ychwanegu y byddai'n llysgennad ardderchog i Sir Ddinbych. Gan na chafwyd unrhyw enwebiadau pellach ac yn dilyn pleidlais gudd, cafodd y Cynghorydd Raymond Bartley ei enwebu'n unfrydol yn Is-gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn ddinesig 2012/13.

Fe urddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bartley â Chadwyn Swydd yr Is-gadeirydd ac yna fe gwblhaodd ei Ddatganiad yn Derbyn y Swydd.

Yma rhoddodd Arweinyddion Grwpiau deyrnged i waith y Cadeirydd a oedd yn ymddeol yn y deuddeng mis diwethaf a llongyfarchion i'r Cynghorwyr Chamberlain-Jones a Bartley ar gael eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd yn ôl eu trefn.

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 6 ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR SIR

Dywedodd y Cadeirydd fod un enwebiad wedi ei dderbyn ar gyfer penodi Arweinydd y Cyngor. Cynigiodd y Cynghorydd Stuart Davies ac fe eiliodd y Cynghorydd Eryl Williams y Cynghorydd Hugh Evans i'w ethol yn Arweinydd y Cyngor. Cyfeiriodd y ddau at y Cynghorydd Evans fel Arweinydd eithriadol gan amlygu ei gyflawniadau yn ystod y weinyddiaeth flaenorol a'u hyder y byddai'n arwain yr awdurdod i lwyddiant pellach.

Diolchodd y Cynghorydd Evans i'w gyd-gynghorwyr am ei gynnig yn Arweinydd gan ddweud y byddai'n gweithio i barhau i wella ac ymgyrraedd tuag at ragoriaeth drwy arloesi a chymhwysiad ymarferol cyflenwad gwasanaeth. Fe adlewyrchodd ar waith yr awdurdod yn y blynyddoedd diwethaf ac amlygu ei lwyddiannau mewn meysydd fel addysg, priffyrdd ac ailgylchu. Wrtho fynegi ei weledigaeth ar gyfer yr awdurdod yn y dyfodol, dywedodd y Cynghorydd Evans fod yna le i wella er bod Sir Ddinbych wedi mwynhau cymaint o lwyddiant yn y blynyddoedd diwethaf. Fe ymhelaethodd ar y tri maes cyfrifoldeb allweddol i ganolbwyntio arnyn nhw yn y dyfodol ynghyd â nifer o gynigion i sicrhau'r gwelliant hwnnw o ran –

(1) Ymrwymiad a Dealltwriaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol
(2) Ffyrdd Mewnol o Weithio
(3) Disgwyliadau'r Gymuned – dod yn nes at ein cymunedau

Fe glodd y Cynghorydd Evans ei gyflwyniad drwy ddweud y byddai'r awdurdod yn wynebu llawer o sialensiau ond roedd mewn sefyllfa dda i ddelio â'r sialensiau hynny a chynnal safle'r Cyngor fel awdurdod sy'n perfformio'n dda. Wrth derfynu ei anerchiad rhoddodd y Cynghorydd Evans beth gwybodaeth gefndir bersonol yn amlygu ei gysylltiadau cryf â Sir Ddinbych a cheisiodd gefnogaeth aelodau i'w etholiad yn Arweinydd.

Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor cynhaliwyd pleidlais gudd ac fe etholwyd y Cynghorydd Hugh Evans yn unfrydol yn Arweinydd y Cyngor. Diolchodd yr Arweinydd i'r aelodau am eu cefnogaeth gan ddweud y byddai'n gweithio'n galed iawn ar eu rhan.

## 7 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Chwefror 28, 2012.

**Materion yn Codi –**

Tudalen 8 - Eitem Rhif 9 Hysbysiad o Gynnig - roedd Aelodau wedi gofyn yn flaenorol am geisio cefnogaeth Aelodau'r Cynulliad i ddarpariaeth dai'r Cyngor fel y'i nodir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a mynegodd y Cynghorydd Eryl Williams ei bryder ynglŷn â'r oedi gyda chael ymateb i'r mater pwysig hwn. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ganfod a gafwyd cefnogaeth gan Aelodau'r Cynulliad ac fe ymddiheurodd am yr oedi ynglŷn â hynny. Gofynnodd y Cynghorydd Williams am ymateb erbyn diwedd yr wythnos.

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar Fawrth 27, 2012.

**Materion yn Codi -**

Tudalen 18 – Eitem Rhif 6 Cyfeiriodd y Cynghorydd Meirick Davies at gyfeiriad yn y penderfyniad i gytuno ar opsiwn a oedd wedi ei osod allan yn yr adroddiad a theimlai na fyddai'r wybodaeth ar gael yn rhwydd gan ei bod wedi ei chynnwys mewn dogfen ar wahân. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod cyfeirio dogfennau a oedd ar gael yn rhwydd yn digwydd yn arferfol gan fod y cofnodion ar wefan y Cyngor.

Tudalen 19 – Eitem Rhif 7 Cynllun Cyfalaf 2011/12 – 2014/15 – O ran ei sylwadau blaenorol ynglŷn â chaffael eiddo ar Bromenâd y Rhyl, roedd y Cynghorydd Meirick Davies yn cefnogi'r angen i ddymchwel yr adeilad dan sylw oherwydd ei stad adfeiliedig ond rhybuddiodd fod yn rhaid i'r Cyngor sicrhau y byddai unrhyw adeilad yn ei le'n cydweddu â'r ardal gadwraeth o'i gwmpas.

Tudalen 15 – Eitem Rhif 5 Adolygiad o'r Cyfansoddiad – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bobby Feeley cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddid yn gwneud gwaith i ymhelaethu ar ddisgrifiadau swydd Pencampwyr o fewn cyfansoddiad y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar Chwefror 28 2012 a Mawrth 27 2012 yn gofnod cywir a'u harwyddo gan y Cadeirydd.*

**8 MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (P:GC&D) ei adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) ynglŷn â newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a oedd yn ofynnol yn ôl darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i gynnwys sefydlu Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a threfniadau i benodi Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Esboniodd y P:GC&D fod yr adroddiad yn delio â nifer o ddarpariaethau gorfodol i aelodau eu hystyried ac roedd yna ddisgwyliad y byddid yn eu gweithredu yng nghyfarfod y Cyngor Blynyddol. Fe ystyriwyd y canllawiau statudol drafft lle'r oedd yn gyson â'r Mesur. Ond, os oedd y canllawiau drafft yn sylweddol wahanol i'r drafft mae'n bosib y byddai angen adolygiad pellach. Fe ymhelaethodd y P:GC&D ar adrannau perthnasol y Mesur a'r oblygiadau i'r Cyngor o ymgymryd â'r gofynion gorfodol hynny yr oedd angen eu hadlewyrchu yng nghyfansoddiad y Cyngor.

Yn ystod cyflwyniad yr adroddiad fe fanteisiodd aelodau ar y cyfle i godi cwestiynau ac egluro materion arbennig efo'r P:GC&D a'r cyfreithlondebau sy'n ymwneud â gweithredu'r darpariaethau statudol. Fe ystyriwyd pob un o'r materion canlynol yn eu tro -

**Sefydlu Pwyllgor Archwilio**

Fe ystyriodd y Cyngor enw, maint a chyfansoddiad y pwyllgor a'i delerau gorchwyl. Nododd Aelodau fod swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol presennol yn debyg iawn i'r rheiny a oedd yn ofynnol gan y Mesur ar gyfer Pwyllgor Archwilio. O ystyried hynny ac effeithiolrwydd y pwyllgor presennol, ac er mwyn effeithlonrwydd fe gytunwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol barhau (gan ymgymryd â'r swyddogaethau sy'n ofynnol gan y Mesur) a'i fod yn cael ei ddynodi'n Bwyllgor Archwilio i'r diben hwnnw. Yn unol â'r rheol gyffredinol mewn cyfraith llywodraeth leol fe gytunodd y Cyngor â'r argymhelliad i'r pwyllgor fod â chydbwysedd gwleidyddol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gynyddu maint y pwyllgor a ymddangosai'n fychan o'i gymharu â'r Cyngor llawn, efallai hyd at un ar ddeg o aelodau'n unol ag aelodaeth pwyllgorau craffu. Fodd bynnag, y consensws oedd y byddai'r aelodaeth bresennol o chwech o gynghorwyr yn ddigonol i ymgymryd â'r dyletswyddau sy'n ofynnol yn y Mesur ynghyd â'r aelod lleyg annibynnol gorfodol. Cefnogai'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill ymarfer disgresiwn i gynnwys Aelod Arweiniol perthnasol y Cabinet fel aelod wrth ystyried y swyddogaethau gofynnol sydd wedi eu nodi yn y Mesur. Fe ystyriodd y Cyngor rinweddau'r cynnig hwnnw ond yn gyffredinol, er mwyn bod yn gwbl annibynnol, ni ddylai'r pwyllgor gynnwys unrhyw aelodau craffu nac aelodau cabinet o fewn ei aelodaeth. Mewn ymateb i gwestiynau fe nododd y P:GC&D y broses recriwtio ar gyfer yr aelod lleyg a chadarnhaodd y dylai'r aelod lleyg fod yn annibynnol ar y Cyngor heb unrhyw deyrngarwch gwleidyddol hysbys ac ni ddylai fod yn gyn Gynghorydd na Swyddog y Cyngor. Roedd Aelodau'n gefnogol o aelod lleyg annibynnol ar y pwyllgor ac o ystyried y penderfyniad i ddynodi'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn Bwyllgor Archwilio i ddibenion y Mesur cafwyd peth trafodaeth ynglŷn ag a ddylai aelod lleyg gael hawliau pleidleisio ar swyddogaethau eraill y bydd y pwyllgor yn ymgymryd â nhw ac a oedd y tu allan i'r rheiny sy'n ofynnol gan y Mesur. Roedd y Cynghorydd Alice Jones yn dadlau'n arbennig o blaid hawliau pleidleisio llawn gan y teimlai y byddai'n ymrannol pe na fyddai gan yr aelod lleyg statws cyfartal ag aelodau eraill y pwyllgor. Fod bynnag, barn y mwyafrif oedd y dylid cyfyngu ar hawliau pleidleisio'r aelod lleyg i'r swyddogaethau hynny a nodwyd yn y Mesur a bod materion eraill i'w neilltuo ar gyfer y cynghorwyr hynny a etholwyd i'r safle hwnnw. Fe eglurodd y P:GC&D y safle cyfreithiol o ran hawliau pleidleisio gan ddweud y gall holl aelodau'r Pwyllgor Archwilio, yn cynnwys yr aelod lleyg, bleidleisio ar unrhyw gwestiwn a fydd i'w benderfynu gan y pwyllgor. Byddai unrhyw ymataliad rhag pleidleisio ar faterion sydd y tu allan i gylch gwaith y swyddogaethau a osodwyd allan yn y Mesur, yn gorfod cael cytundeb yr aelod lleyg. Mewn termau ymarferol gellid rheoli busnes y pwyllgor i wahanu swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio fel y'u diffinnir yn y Mesur oddi wrth swyddogaethau llywodraethu corfforaethol eraill. Fe addefodd y gellid amddiffyn cyfyngu cyfranogiad yr aelod lleyg i swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio'n unig.

**Sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Fe ystyriodd y Cyngor sefydlu'r pwyllgor, ei faint, ei gyfansoddiad a'i delerau gorchwyl. Nododd Aelodau fod y Mesur wedi mynegi'n glir ofynion a swyddogaethau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a bod yn rhaid cael cydbwysedd gwleidyddol. Dywedodd y P:GC&D ei bod yn annhebygol y byddai'n rhaid i'r pwyllgor gyfarfod fwy nag unwaith y flwyddyn. Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Joan Butterfield, a eiliwyd gan y Cynghorydd Barbara Smith fe

gytunodd aelodau'n unfrydol i sefydlu'r pwyllgor gydag un ar ddeg o aelodau, yn wleidyddol gytbwys yn unol â'r pwyllgorau craffu.

**Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu**

Fe ystyriodd y cyngor ddyraniad Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu fel y'i darparwyd gan y Mesur mewn amgylchiadau lle'r oedd yna ddau neu fwy o grwpiau gwleidyddol a phwyllgorau craffu lluosog fel yn Sir Ddinbych. Wrth esbonio'r broses o benodi, ychwanegodd y P:GC&D y gallai'r Cyngor fabwysiadu system ddyrannu wahanol ac amlinellodd y gweithdrefnau y byddai'n rhaid eu dilyn. Nid oedd yna unrhyw gyfeiriad at benodi Is-gadeiryddion yn y Mesur ac fe awgrymwyd bod penodi Is-gadeiryddion i fod yn fater i'r pwyllgorau hynny. Fe eglurodd y P:GC&D y diffiniad o 'grŵp gwrthwynebol' fel grŵp sydd heb gynrychioliad yn y Cabinet.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei ddynodi'n Bwyllgor Archwilio i ddibenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a bod y Telerau Gorchwyl i'r pwyllgor hwnnw fel y'i mynegir yn Atodiad 2 i'r adroddiad yn cael ei fabwysiadu'n amodol ar (1) gyfeiriad i adlewyrchu, lle bo hynny'n bosib, fod busnes y pwyllgor i'w reoli i wahanu swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio fel y'u nodir yn y Mesur oddi wrth swyddogaethau llywodraethu corfforaethol eraill, a (2) drwy gytundeb, bod cyfranogiad yr aelod lleyg annibynnol i'w gyfyngu i swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio;*

*(b) bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio i'w penodi gan y Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol;*

*(c) sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys un ar ddeg o aelodau, yn wleidyddol gytbwys a mabwysiadu Telerau Gorchwyl y pwyllgor hwnnw fel y'u nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad;*

*(d) mabwysiadu'r egwyddorion i'w cymhwyso i benodiad Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu fel y'u nodir ym mharagraffau 4.26 i 4.30 yr adroddiad*

*(e) awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i wneud y newidiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r diwygiadau sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y'u nodir yn (a) i (d) uchod.*

**9 CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AR GYFER AELODAU**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (P:GC&D) adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i geisio cymeradwyaeth aelodau i lefel cydnabyddiaeth ariannol aelodau am y flwyddyn ariannol 2012/13 yn dilyn argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran y symiau sydd i'w talu fel Cyflog Sylfaenol, Cyflogau Uwch-swyddogion a Chyflogau Dinesig.

Hysbyswyd Aelodau fod yn rhaid i'r Cyngor weithredu gofynion y Panel dan S153 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Yn unol â hynny mae'n rhaid i'r Cyngor

dalu Cyflog Sylfaenol i bob aelod a gall dalu Cyflogau Uwch-swyddogion a Chyflogau Dinesig i'r swyddi a nodwyd a'r symiau a bennwyd gan y Panel. Roedd uchafrif o ddau ar hugain o Gyflogau Uwch-swyddogion wedi eu pennu ar gyfer Sir Ddinbych. Roedd manylion y Cyflogau Sylfaenol, Uwch a Dinesig wedi eu nodi yn yr adroddiad ynghyd â phedair ar ddeg o swyddi a fyddai'n gymwys ar gyfer Cyflog Uwch. Byddai cymhwysedd unrhyw swyddi eraill ar gyfer Cyflog Uwch yn dibynnu ar benodiad aelodau'r pedair swydd ar ddeg a oedd wedi eu nodi. Wrth dywys aelodau drwy'r adroddiad fe amlygodd y P:GC&D y canlynol -

- y ffioedd y mae'n rhaid i'r Cyngor eu talu i aelodau cyfetholedig
- y taliadau uchaf sy'n daladwy am ofal plant neu ddibynyddion tra bod aelodau/aelodau cyfetholedig yn ymgymryd â'u dyletswyddau
- treuliau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy
- yr angen i gynnal a chyhoeddi rhestr flynyddol o gydnabyddiaeth i aelodau ac i gyhoeddi'r cyfanswm a delir i bob aelod/aelod cyfetholedig.

Yn ystod yr ystyriaeth o'r adroddiad fe geisiodd aelodau eglurhad ar nifer o faterion ac ymateb y P:GC&D i gwestiynau aelodau oedd -

- yn ôl S153 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 roedd gweithredu gofynion y Panel yn orfodol
- os na fyddai'r Cyngor yn gweithredu gofynion y Panel roedd gan y Gweinidogion Cymreig rym i gyfarwyddo'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion a gallent orfodi cyfarwyddyd felly drwy wneud cais am orchymyn gorfodi
- mae'n rhaid i bob cynghorydd dderbyn Cyflog Sylfaenol ac mae'r Cyngor â disgresiwn i ddyfarnu hyd at ddau ar bymtheg o Gyflogau Uwch-swyddogion a dau Gyflog Dinesig sy'n rhaid eu dyrannu'n unol ag argymhellion y Panel fel y'u nodir yn yr adroddiad
- gellid talu costau gweithredu argymhellion y Panel o gyllidebau presennol
- cadarnhau fod y Cyngor yn flaenorol wedi talu Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig i ddeunaw o swyddi ond yng ngoleuni argymhellion y Panel dim ond i ddwy ar bymtheg o swyddi y gellir talu Cyflogau Uwch-swyddogion.

Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn croesawu'r ffaith fod y Panel yn gosod cyfraddau penodedig gan y teimlai fod y Cyngorwyr wedi bod mewn sefyllfa anodd yn pennu eu lwfansau eu hunain. Nododd y Cyngor y gofyniad statudol i fabwysiadu argymhellion y Panel ac fe ystyriodd ymhellach ddyraniad y swyddi a fyddai'n denu Swyddogion Cyflogau Uwch yn Sir Ddinbych. Mynegwyd safbwyntiau cymysg ynglŷn ag a ddylid talu'r ddau ar bymtheg o Gyflogau Uwch-swyddogion yn llawn gyda rhai aelodau o blaid talu dim ond y pedair ar ddeg o swyddi a ddynodwyd ac eraill yn amlygu'r gwaith ychwanegol a wneir gan rai aelodau ac a allai gyfiawnhau mwy o gydnabyddiaeth. Yn ystod dadl cytunodd aelodau y dylid talu Cyflogau Uwch-Swyddogion i'r pedair swydd ar ddeg a oedd wedi eu dynodi yn yr adroddiad ynghyd â dau Gyflog Dinesig ond teimlwyd nad oedd ganddyn nhw ddigon o wybodaeth ar hyn o bryd i wneud penderfyniad cwbl wybodus ynglŷn ag a ddylid dyrannu'r tri Chyflog Uwch-swyddogion a oedd ar ôl. Fe amlygwyd hefyd yr angen i roi cyfle i aelodau ymgynghori o fewn eu grwpiau ac i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol swyddi efo'r cynghorwyr a oedd newydd eu hethol, ynghyd â'r angen i ystyried yr adroddiad a oedd ar ddod ar Gydbwysedd Gwleidyddol ac Aelodaeth Pwyllgorau cyn gwneud penderfyniad. Awgrymodd y Prif

Weithredwr bod rhai opsiynau ar sut i ddelio â'r dyraniadau a oedd ar ôl, i'w gosod allan i aelodau eu hystyried mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) mabwysiadu argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran y symiau sydd i'w talu fel Cyflog Sylfaenol, Cyflogau Uwch-Swyddogion a Chyflogau Dinesig;*

*(b) cytuno ar bedwar ar ddeg o Gyflogau Uwch-swyddogion ar gyfer y swyddi a nodir yn 4.23 yr adroddiad yn ogystal â dau Gyflog Uwch-swyddogion ar gyfer swyddi'r Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig gydag ystyriaeth o'r tri Chyflog Uwch-swyddogion sydd ar ôl ac ar gael i'r Cyngor, i'w gohirio tan gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol;*

*(c) mabwysiadu'r cyfraddau ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig fel y'u cymeradwyir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;*

*(d) mabwysiadu argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran talu treuliau teithio, cynhaliaeth, ac ad-daliad treuliau sy'n gysylltiedig â gofal plant.*

**10 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR AT Y DYFODOL**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Flaenraglen Waith y cyngor gan ddweud fod eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod y Cyngor yr wythnos nesaf yn cynnwys adolygiad o drefniadau cydbwysedd gwleidyddol ac adroddiad blynyddol y pwyllgorau craffu. Gofynnodd y Cynghorydd David Smith am i'r adroddiad ar gydbwysedd gwleidyddol fod ar gael i Arweinwyr Grwpiau cyn y cyfarfod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill dywedodd y P:GC&D y byddai nifer y Cadeiryddion Craffu a oedd ar gael i grwpiau arbennig yn hysbys unwaith y byddai dyraniad seddi pwyllgor a oedd yn wleidyddol gytbwys wedi ei gadarnhau. Yna gellid penodi'r Cadeiryddion gan y grwpiau arbennig hynny.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rhys Hughes at yr eitem ar gyfer y Cyngor ar Orffennaf 10 a oedd yn delio â'r canllawiau cynllunio atodol ar y cyd ar Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte. Gan fod aelod newydd wedi ei ethol ar gyfer ward Llangollen, gofynnodd y Cynghorydd Hughes am ohirio'r eitem er mwyn rhoi cyfle i aelodau newydd gael eu briffio'n llawn ar y mater cyn ystyriaeth ffurfiol. Cytunai'r Cynghorydd Stuart Davies gan ddweud ei fod wedi gofyn am i'r ystyriaeth o'r mater gael ei gohirio oddi ar agenda'r Pwyllgor cynllunio nes y byddai aelodau'n gwbl ymwybodol o'r sefyllfa.

Yn olaf, cyflwynodd y Cynghorydd Alice Jones ei hymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod y Cyngor yr wythnos nesaf oherwydd y byddai'n mynychu gwrandawiadau'r Cynllun Datblygu Lleol a mynegodd ei siomedigaeth ynglŷn â'r gwrthdaro cyfarfodydd a

theimlai y gellid bod wedi osgoi hynny gyda chynllunio gwell.  Wrth gydymdeimlo â'i sefyllfa cytunai'r Cadeirydd fod y gwrthdaro cyfarfodydd yn anffodus.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar sylwadau'r aelodau uchod, derbyn a nodi Blaenraglen Waith y Cyngor*.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.05 p.m.